



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cymrodoriaeth Gysylltiol Canllawiau i Ymgeiswyr

Addaswyd o ganllawiau AU Ymlaen



1. Cynnwys

1. CYNNWYS	1
2. RHAGARWEINIAD	2
3. FFRAMWAITH SAFONAU PROFFESIYNOL Y DU 2011 (PSF)	3
3.1 ADDYSG UWCH A CHYMHWYSEDD AR GYFER CYMRODORIAETH	4
4. CYMRODORIAETH GYSYLLTIOL A DISGRIFYDD 1	5
5. ARWEINIAD SYDD AR GAEL I GEFNOGI EICH CAIS	7
6. EICH CYFRIF AM EICH ARFERION PROFFESIYNOL	8
6.1 EICH CYFRIF AM EICH ARFERION PROFFESIYNOL	8
6.2 DATGANIAD AM GYD-DESTUN	9
6.3 STRWYTHURO EICH CYFRIF ADFYFYRIOL O ARFERION (RAP)	11
6.4 CYFYNGIAD GEIRIAU'R RAP	12
6.5 MYFYRIWCH AR EICH ARFERION DRWY EICH RAP I GYD	13
6.6 CYFEIRIWCH AT Y SAIL DYSTIOLAETH SY'N HYSBYSU AC YN TANATEGU EICH ARFERION (D1.V)	13
6.7 YMGYSYLLTIAD MEWN GWEITHGAREDDAU DATBLYGU PROFFESIYNOL YN YMWNEUD Â CHYFRIFOLDEBAU ADDYSGU, DYSGU AC ASESU (D1.VI)	14
7. DANGOS TYSTIOLAETH AR GYFER DIMENSIYNAU PSF SY'N OFYNNOL AR GYFER DISGRIFYDD 1	16
8. TYSTIOLAETH O DDAU FAES GWEITHGAREDD	18
8.1 DANGOS TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 1: CYNLLUNIO A DYLUNIO GWEITHGAREDDAU DYSGU A/NEU RAGLENNNI ASTUDIO	18
8.2 RHOI TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 2: ADDYSGU A/NEU GEFNOGI DYSGU	20
8.3 DANGOS TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 3: ASESU A RHOI ADBORTH I DDYSGWYR	21
8.4 TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU AMGYLCHEDDAU DYSGU EFFEITHIOL A DULLIAU O GEFNOGI AC ARWAIN MYFYRWYR	23
8.5 DANGOS TYSTIOLAETH O FAES GWEITHGAREDD 5: YMGYSYLLTU Â PHARHAU DATBLYGIAD PROFFESIYNOL MEWN PYNCAU / DISGYBLAETHAU A'U HADDYSGEG, GAN GYNNWYS YMCHWIL, YSGOLORIAETH A GWERTHUSO ARFERION PROFFESIYNOL	25
9. DATGANIADAU CEFNOGI	28
9.1 CANLLAW I GANOLWYR	28
10. CYFLWYNO EICH CAIS AM GYMRODORIAETH GYSYLLTIOL	29
10.1 Y BROSES O GYFLWYNO'R CAIS:	29
11. SUT FYDD EICH CAIS YN CAEL EI ADOLYGU?	30
11.1 SUT MAE'R ASESWYR YN FFURFIO EU BARN?	30
11.2 CANLYNIADAU POSIBL YR ADOLYGIAD	30
11.3 FAINT O AMSER FYDD Y BROSES ADOLYGU'N EI GYMRYD?	32
11.4 BETH DDYLWN I EI WNEUD OS OES GEN I GWESTIYNAU ERAILL?	32

2. Rhagarweiniad

Mae'r canllawiau hyn i unigolion sydd eisiau gwneud **cais drwy Gynllun Cymrodoriaeth Gysylltiol DPP Y Drindod Dewi Sant**.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio gofynion Cymrodoriaeth Gysylltiol ac yn rhoi arweiniad i'ch cefnogi i ddatblygu eich cais.

Trwy ymgeisio i ddod yn Gymrawd Cysylltiol cewch y cyfle i:

- Ennill cydnabyddiaeth broffesiynol am eich arferion addysgu a/neu gymorth dysgu mewn addysg uwch a gydnabyddir yn gynyddol gan sefydliadau rhyngwladol;
- Adnabod a dathlu eich cryfderau a'ch cyflawniadau drwy fyfyrio ar eich profiad;
- Meincnodi eich arferion yn erbyn safonau proffesiynol a disgwyliadau'r sector;
- Dangos eich ymrwymiad i addysgu, dysgu, a phrofiad y myfyriwr, drwy ymgysylltu â phroses ymarferol sy'n annog ymchwil, myfyrion a datblygiad proffesiynol.

Rydym yn argymhell eich bod, cyn dechrau eich cais, yn defnyddio **Offeryn categori Cymrodoriaeth ar-lein (FCT)** AU Ymlaen sy'n rhad ac am ddim. Pan fyddwch yn ateb y cwestiynau ar-lein am eich gwaith mewn addysgu a dysgu, dylai hyn:

- eich helpu i sicrhau mai'r Gymrodoriaeth Gysylltiol yw'r dewis gorau i'ch gwaith ar hyn o bryd,
- roi hwb i chi i feddwl am wahanol agweddau o'ch gwaith wrth i chi gynllunio eich cais.

3. Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU 2011 (PSF)

Mae **Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU 2011 (PSF) ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch** yn rhoi disgrifiad cyffredinol o brif agweddau'r rôl a wneir gan bobl broffesiynol sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu o fewn yr amgylchedd addysg uwch. Mae wedi ei ysgrifennu o safbwynt yr ymarferydd a gall unigolion a sefydliadau ei ddefnyddio i adnabod a meincnodi rolau cefnogi addysgu a dysgu mewn addysg uwch.

Mae gan y PSF ddwy elfen: **Dimensiynau a Disgrifwyr**.

- Mae **Dimensiynau'r Fframwaith** (t3, PSF) yn gyfres o ddatganiadau sy'n amlinellu'r:
- Pump **Maes Gweithgaredd** a wnewch chi wrth addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch;
- Chwe agwedd o **Wybodaeth Graidd** sydd eu hangen arnoch i wneud eich gweithgareddau dysgu ac addysgu ar y lefel briodol o addysg uwch;
- Pedwar **Gwerth Proffesiynol** a ddylai hysbysu a thanategu eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu.

Mae'r **Disgrifwyr PSF (PSF, t4-7)** yn gyfres o ddatganiadau (y cyfeirir atynt fel 'meini prawf Disgrifwyr') sy'n amlinellu prif nodweddion rhywun sy'n dangos tystiolaeth o bedwar categori bras o rolau addysgu a chefnogi dysgu nodweddiadol mewn addysg uwch.

Mae AU Ymlaen yn gweithredu'r **cynllun Cymrodoriaeth** ac yn cyfateb ei gymrodoriaethau â'r Disgrifyddion PSF fel a ganlyn:

- **Disgrifydd 1 (D1) wedi ei alinio â'r Cymrawd Cysylltiol**
- Disgrifydd 2 (D2) wedi ei alinio â'r Cymrawd
- Disgrifydd 3 (D3) wedi ei alinio â'r Uwch Gymrawd
- Disgrifydd 4 (D4) wedi ei alinio â'r Prif Gymrawd

Gall unigolyn sy'n darparu addysgu a/neu gymorth dysgu dderbyn cydnabyddiaeth gan AU Ymlaen yn dibynnu ar eu harferion proffesiynol a'u profiad mewn un o bedwar categori cymrodoriaeth. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio ar **Gymrodoriaeth Gysylltiol (Disgrifydd 1)**.

3.1 Addysg Uwch a chymhwysedd ar gyfer Cymrodoriaeth

Mae'r PSF yn nodi'r safonau proffesiynol ar gyfer **addysg uwch**. Mae'n **rhaidd** i'r holl brofiad a thystiolaeth a gynhwyswch yn eich cais ymwneud ag addysgu a/neu gefnogaeth i ddysgu sy'n berthnasol i ddarpariaeth addysg uwch fel:

- lefel 4 neu'n uwch o fewn y **Fframwaith Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ)** yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, neu ddarpariaeth **gyfatebol**;
- lefel 7 neu'n uwch o fewn **Fframwaith Credyd a Chymwysterau'r Alban (SCQF)** yn yr Alban yn y Fframwaith Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch (FQHEIS) neu ddarpariaeth **gyfatebol**;
- cylch cyntaf neu'n uwch y **Fframwaith Cymwysterau yn y Maes Addysg Uwch** (QF-EHEA);
- lefel 5 neu'n uwch o **Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF)** neu ddarpariaeth **gyfatebol**;
- lefel 5 neu'n uwch o **Fframwaith Cymwysterau Seland Newydd** neu fframweithiau addysg uwch **cyfatebol**;
- gellir ystyried bod gweithgaredd sydd wedi ei ganolbwyntio ar gefnogi myfyrwyr o fewn cyd-destun Addysg Uwch, ar yr amod bod y myfyriwr/myfyrwyr wedi eu cofrestru ar Gymhwyster Addysg Uwch, yn dystiolaeth sy'n gyfatebol â'r fframweithiau addysg uwch uchod;
- gellir ystyried bod darparu datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer staff cymorth dysgu ac academiaidd yn dystiolaeth gyfatebol i'r fframweithiau addysg uwch hefyd.

Wrth ddiffinio beth yw addysgu a dysgu AU mewn gwahanol gyd-destunau rhyngwladol, er mwyn penderfynu a yw'n gymwys ar gyfer Cymrodoriaeth, mae AU Ymlaen yn defnyddio gwybodaeth NARIC UK (Canolfan Wybodaeth Cydnabyddiaeth Genedlaethol) am gymwysterau a fframweithiau addysg rhyngwladol. Bydd rhaglenni wedi eu diffinio fel rhai AU at ddibenion gwneud staff sy'n addysgu a chefnogi dysgu ar y rhaglen yn gymwys ar gyfer Cymrodoriaeth os ydynt yn rhan integrol o raglen sydd wedi ei diffinio fel un addysg uwch yng nghyd-destun y wlad astudio. Ceir diffiniad pellach i'r staff o'r hyn yw Addysg Uwch yn y **DU ac Awstralia**. Os ydych yn ansicr a yw eich enghreifftiau o arferion o fewn eich cais yn cyflawni'r gofynion cymhwysedd uchod, cysylltwch â'r Swyddfa Academiaidd yn HEApplications@uwtsd.ac.uk

4. Cymrodoriaeth Gysylltiol a Disgrifydd 1

Fel yr esboniwyd uchod, dyfernir Cymrodoriaeth Gysylltiol i bobl broffesiynol ym maes dysgu ac addysgu mewn addysg bellach (AU). Byddwch angen parhau i gyfeirio at PSF (gwelwch Adran 2) wrth i chi symud ymlaen gyda'ch cais a gwneud cysylltiadau rhwng eich gwaith, Dimensiynau **penodol** y PSF a Disgrifydd 1 (**PSF**, t4).

I gyflawni Cymrodoriaeth Gysylltiol, byddwch angen dangos tystiolaeth bod eich gwaith addysgu a/neu gymorth dysgu'n dangos gofynion y chwe maen prawf yn **Nisgrifydd 1 (D1)**, sef:

D1.I	Ymgysylltiad llwyddiannus ag o leiaf dau allan o'r pum Maes Gweithgaredd
D1.II	Ymgysylltiad llwyddiannus mewn addysgu priodol ac arferion sy'n ymwneud â'r Meysydd Gweithgaredd hyn
D1.III	Gwybodaeth a dealltwriaeth graidd briodol o K1 a K2 o leiaf
D1.IV	Ymrwymiad i Werthoedd Proffesiynol priodol o ran hwyluso dysgu pobl eraill
D1.V	Arferion proffesiynol perthnasol, ymchwil addysgeg a phwnc a/neu ysgoloriaeth yn y gweithgareddau uchod
D1.VI	Ymgysylltiad llwyddiannus, lle bo'n briodol, mewn gweithgaredd datblygiad proffesiynol sy'n berthnasol i gyfrifoldebau dysgu, addysgu ac asesu

Y Gymrodoriaeth Gysylltiol fel arfer yw'r categori priodol o Gymrodoriaeth i unigolion sy'n gallu darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd mewn perthynas â'u rol(au) broffesiynol sy'n cynnwys rhai cyfrifoldebau addysgu a/neu gymorth dysgu *penodol* megis:

- Ymchwilwyr sydd ar gam cynnar yn eu gyrfa gyda rhai cyfrifoldebau addysgu (e.e. myfyrwyr PhD, cynorthwywyr addysgu graddedig, ymchwilwyr contract/ymchwilwyr ôl-ddoethuriaeth, ac ati);
- Staff sy'n newydd i addysgu (yn cynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldebau academaidd rhan amser);
- Staff sy'n cefnogi dysgu neu addysgu (e.e. technolegwyr dysgu, datblygwyr dysgu a staff llyfrgell/adnoddau dysgu);
- Staff sy'n gwneud rolau technegydd / dangoswyr sy'n cynnwys rhai cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig ag addysgu;
- Staff profiadol mewn meysydd proffesiynol perthnasol a allai fod yn newydd i addysgu a/neu gefnogi dysgu, neu sydd â phortffolio addysgu cyfyngedig.

Dylai'r **Offeryn Categori Cymrodoriaeth** AU Ymlaen eich cefnogi i benderfynu mai Cymrodoriaeth Gysylltiol yw'r categori mwyaf priodol o Gymrodoriaeth ar gyfer eich rôl a'ch profiad hyd yn hyn, a diben y ddogfen arweiniad hon yw eich cefnogi i ddatblygu cais.

Cyn gwneud cais i'r Cynllun DPP am Gydnabyddiaeth gan HEA, mae'n rhaid i chi gwblhau rhaglen hyfforddiant y Brifysgol am y UKPSF, sy'n cynnwys gweithdy briffio gorfodol a dyraniad mentor. Mae'r briffio a'r mentor yno i'ch cefnogi chi yn eich cais. Bydd gan y mentor a roddir i chi statws cymrodoriaeth yn barod sydd naill ai'n gyfatebol i, neu'n uwch na'r categori rydych yn bwriadu gwneud cais amdano – byddent wedi bod drwy'r broses eu hunain ac felly byddent yn gallu deall yr ymrwymiad rydych yn ei ddangos i addysgu, dysgu a chefnogi myfyrwyr yn effeithiol drwy gymryd rhan yn y broses hon. Bydd eich mentor yn gallu eich cefnogi yn y broses ymgeisio, gan gynnwys darllen drafftiau a rhoi adborth i chi am eich cais.

5. Arweiniad sydd ar gael i gefnogi eich cais

Mae **dwyrain** i'ch cais uniongyrchol am Gymrodoriaeth Gysylltiol:

- **Cyfrif ysgrifenedig o Ymarfer Proffesiynol**; Datganiad Cyd-destun a Chyfrif Adfyfyriol o Ymarfer yn erbyn dau Faes Gweithgaredd PSF (gwelwch Adran 6)
- Datganiad cefnogi gan **un** canolwr (gwelwch Adran 9)

Dylid darllen a defnyddio'r canllawiau i ymgeiswyr am Gymrodoriaeth Gysylltiol mewn cydweithrediad â chanllawiau eraill; cewch hyd i'r rhain yn y 'pecyn' ymgeisydd a anfonwyd atoch, neu drwy ddilyn y dolenni isod:

- **Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU 2011** (PSF) am addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch (gwelwch Adran 3);
- **Dimensiynau o ganllawiau'r Fframwaith**: cyfres o ganllawiau a ysgrifennwyd i siwtio unigolion sy'n ymgysylltu â'r Dimensiynau PSF mewn gwahanol gyd-destunau. Mae'r canllawiau hyn yn rhoi enghreifftiau i ddangos y gwahanol ffyrdd y gall unigolion ddangos tystiolaeth a'u hymgysylltiad â'r Dimensiynau PSF fel y bo'n briodol i bob Disgrifiydd PSF (gwelwch Adran 3). Dylai'r canllaw eich helpu i wneud cysylltiadau ystyrlon rhwng eich gwaith eich hun a gwahanol Ddimensiynau'r PSF:
 - Dimensiynau'r Fframwaith
 - Dimensiynau'r Fframwaith: staff mewn rolau cefnogi dysgu
 - Dimensiynau'r Fframwaith: goruchwylwyr doethuriaeth
 - Dimensiynau'r Fframwaith: addysg uwch wedi ei seilio yn y coleg
 - Dimensiynau'r Fframwaith: cerddoriaeth
 - Dimensiynau'r Fframwaith: golwg ddigidol ar yr UKPSF

Rydym yn argymhell eich bod yn cael gafael ar y fersiwn/fersiynau mwyaf priodol ar gyfer eich cyd-destun proffesiynol chi ac yn defnyddio'r arweiniad i'ch helpu i gynllunio pa dystiolaeth o'ch gwaith y gallech ei chynnwys yn eich cais i ddangos ymhle mae'r gwaith hwn yn alinio â'r gwahanol Ddimensiynau;

Templed Cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol (**[DOLEN at Ffurflen Y Drindod Dewi Sant](#)**); defnyddiwch y templed Word hwn i gyflwyno eich cais i'r Swyddfa Academaidd yn HEAapplications@uwtsd.ac.uk. Mae'r templed Cymrodoriaeth Gysylltiol hefyd yn eich galluogi i rannu fersiwn terfynol eich cais gyda'ch canolwyr.

6. Eich Cyfrif am eich Arferion Proffesiynol

Mae'r Gymrodoriaeth Gysylltiol wedi ei seilio ar gyflawni Disgrifydd 1 (D1) y PSF, a'ch Cyfrif o Arfer Proffesiynol yw craidd eich cais. Mae'r Cyfrif am eich Arferion Proffesiynol yn cynnwys Datganiad am Gyd-destun (gwelwch Adran 6.2) a Chyfrif Adfyfyriol am Arferion yn erbyn dau o Feysydd Gweithgaredd PSF.

Mae eich **Datganiad am Gyd-destun** yn rhoi crynodeb byr o'ch rolau, cyfrifoldebau a phrofiad proffesiynol mewn addysg uwch, a dylai eich **Cyfrif Adfyfyriol am Arferion (RAP)** ddarparu tystiolaeth bod eich arfer proffesiynol yn ateb gofynion **Disgrifydd 1** PSF.

Mae nifer o wahanol fathau o addysg uwch ac mae amrywiaeth sylweddol rhwng y gwahanol rolau y mae pobl broffesiynol mewn addysg uwch yn eu gwneud; er enghraifft, o ran profiad, cefndir disgyblaethol, rôl swydd mewn cyd-destun sefydliadol, ac ati. Mae eich Cyfrif am Arferion Proffesiynol yn gyfrif personol a dylai'r ffocws fod ar eich gwaith proffesiynol eich hun bob amser; gwnewch e'n bersonol i'ch arferion penodol, unigol ac unigryw chi. Bydd eich Datganiad Cefnogol yn cadarnhau bod yr hyn yr ysgrifennwch amdano yn eich Cyfrif am Arferion Proffesiynol yn cynrychioli eich gwaith chi mewn ffordd ddilys (gwelwch Adran 9).

Mae'n bwysig nodi eich bod yn canolbwyntio ar ddangos tystiolaeth o'ch arferion effeithiol hyd yn hyn yn eich cais. Gallwch gyfeirio'n fyr at gynlluniau'r dyfodol wrth i chi nodi beth sydd wedi gweithio'n dda ac unrhyw newidiadau y bwriadwch eu gwneud yn y dyfodol; ond, bydd eich cais yn cael ei feirniadu drwy edrych a yw eich tystiolaeth o arferion cyfredol a diweddar yn ateb gofynion Disgrifydd 1.

Yn eich **Cyfrif Adfyfyriol am Arferion (RAP)**, dylech gynnwys sail resymegol briodol am y dulliau a ddefnyddiwyd a dangos tystiolaeth o lwyddiant ac effeithiolrwydd eich addysgu a/neu arferion dysgu cefnogol. Dylech seilio eich Cyfrif Adfyfyriol am Arferion o amgylch enghreifftiau go iawn o'ch gwaith a dylech ddangos yn glir **beth** rydych yn ei wneud, **pam/sut** rydych yn ei wneud yn y ffordd honno a **sut rydych yn gwybod** bod hyn yn **effeithiol**.

Bydd esbonio 'pam' roeddech wedi defnyddio pob dull yn eich galluogi i gynnwys y 'sail dystiolaeth' sy'n hysbysu ac yn tanategu eich arferion yn eich RAP; (gwelwch Adran 6.6). Hefyd, mae angen i chi gynnwys y ffyrdd y mae'r datblygiad proffesiynol rydych wedi ei wneud wedi dylanwadu ar eich arferion personol (gwelwch Adran 6.7).

Darparwch enghreifftiau **dethol** o'ch arferion yn eich RAP a gwnewch yn siŵr eu bod yn uniongyrchol berthnasol i'ch cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol. Mae ansawdd yr esiamplau o dystiolaeth yn llawer pwysicach na'r nifer. Dylech dynnu enghreifftiau o'ch arferion presennol a diweddar (o fewn y 3 blynedd diwethaf) ac mae'n rhaid iddynt fod yn berthnasol i addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch. Os byddwch yn myfyrio ar unrhyw arferion proffesiynol hanesyddol yn rhan o'ch tystiolaeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn canolbwyntio ar y ffordd y mae hyn yn effeithio'n awr ar eich arferion cyfredol.

6.1 Eich Cyfrif am eich Arferion Proffesiynol

Meddylwch am eich cais fel 'honiad'; rydych yn honni bod eich gwaith yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgu'r myfyrwyr. Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ddau adolygydd cymheiriaid a bydd angen i chi ddangos i'r adolygwyr hyn bod sail resymegol glir i'r ffordd y gweithiwyd a'r dewisiadau a wnewch yn eich gwaith.

Ysgrifennwch yn y person cyntaf (defnyddiwch 'fi') fel ei fod yn dangos yn glir beth rydych **chi** yn ei wneud/wedi ei wneud. Ceisiwch osgoi trafod addysgu mewn termau cyffredinol neu haniaethol am fod hyn yn symud y cais i ffwrdd oddi wrth ganolbwyntio arnoch chi a'ch arferion personol eich hun, ac ni fydd hynny'n helpu eich 'honiad' personol chi mewn perthynas â Disgrifydd 1. Os ydych eisiau cynnwys gwaith a wnaethoch yn rhan o dîm/gyda chydweithwyr, mae angen i chi ddangos yn glir beth oedd eich cyfraniad personol.

Rhaid i chi gyflwyno eich cais yn **Gymraeg neu Saesneg**.

Nodwch **na fyddwn** yn derbyn diagramau, delweddu, hypergysylltiadau nac unrhyw ddogfennau/atodiadau eraill fel CV.

Wrth ddewis y **ddau Faes Gweithgaredd PSF o bump** y byddwch yn adfyfrio arnynt yn rhan o'ch cais, dylech ddefnyddio'r **Erfyn Categori Cymrodoriaeth** AU Ymlaen a thrafod gyda'ch mentor pa feysydd sydd fwyaf priodol i chi.

6.2 Datganiad am Gyd-destun

Datganiad am Gyd-destun (hyd at 300 o eiriau) yw rhan gyntaf eich Cyfrif am eich Arferion Proffesiynol a dylech eich cyflwyno eich hun **yn fyr** ac **amlinellu** eich rôl/rolau a'ch cyfrifoldebau mewn addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch. Bydd y wybodaeth yn eich Datganiad am Gyd-destun yn helpu'r adolygwyr i ddeall natur eich gwaith a'r cyd-destun yr ydych yn gweithio ynddo, cyn iddynt edrych ar y dystiolaeth a ddarparwch yn eich Cyfrif Adfyfyriol am Arferion (RAP) yn erbyn Disgrifydd 1 y PSF 1; mae'r adran hon yn rhoi'r **cefnidir** i'r RAP ac nid yw'n cael ei 'asesu' yn erbyn Disgrifydd 1.

Heb fod yn fwy na 300 gair dylai eich Datganiad Cyd-destun:

- Roi crynodeb **byr** o'ch profiad addysgu a/neu gefnogi dysgu, gan gynnwys y cyd-destun yr ydych yn gweithio ynddo ar hyn o bryd, eich rôl a'ch cyfrifoldebau presennol mewn addysgu a/neu gefnogi dysgu. Pennwch y math o sefydliad(au) y gweithiwch iddynt a'u lleoliad, oherwydd bydd hyn yn helpu i osod y cyd-destun ar gyfer eich gwaith, ond cadwch hwn yn fyr ac yn berthnasol i'ch rôl. Peidiwch â chynnwys manylion am hanes a bri'r sefydliad(au), oherwydd mae eich Cyfrif am eich Arferion Proffesiynol amdanoch chi a'ch gwaith;
- Nodwch pa fath o fyfyrwyr yr ydych yn gweithio â nhw; er enghraifft, lefel yr astudiaeth (y flwyddyn astudio, is-raddedig, ôl-raddedig, ac ati), rhaglen(ni)/uned(au) astudio, disgyblaeth/maes o arbenigedd, nifer a mathau o ddysgwyr ac ati;
- Canolbwyntiwch ar eich **arferion presennol neu ddiweddar**, a ddylai fod o fewn y 3 blynedd diwethaf. Cofiwch fod eich cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol wedi ei seilio ar eich **arferion addysg uwch**; os ydych chi'n gweithio hefyd mewn rolau addysgu neu ddysgu eraill y tu allan i addysg uwch, ni ddylech gynnwys hyn yn eich cais (cyfeiriwch at Adran 2 i gael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd ar gyfer Cymrodoriaeth Gysylltiol).

Am nad yw'r Datganiad am Gyd-destun yn rhan wedi'i asesu o'ch cais, nid oes angen i chi gysylltu'r wybodaeth hon â'r PSF. Ni fydd yr adolygwyr yn rhoi ystyriaeth i'r wybodaeth yn y Datganiad am Gyd-destun pan maen nhw'n asesu eich cais, felly **ni ellir** ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth atodol a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o arferion effeithiol i'ch 'honiad' am Gymrodoriaeth Gysylltiol yn eich RAP (h.y. ni all gael ei ddefnyddio i ymestyn y cyfyngiad geiriau yn eich RAP).

Mae'r ddwy enghraifft isod yn dangos y mathau o wybodaeth y mae'n ddefnyddiol eu cynnwys yn y Datganiad am Gyd-destun i roi'r cefndir i'ch arferion:

Enghraifft 1:

Rwy'n fyfyrwr PhD yn fy nhrydedd flwyddyn mewn prifysgol ymchwil-ddwys. Rwyf wedi cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau addysgu a chefnogi dysgu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rwy'n arwain seminarau i grwpiau o rhwng 10 a 15 o fyfyrwr israddedig sy'n astudio Sbaeneg ym mlynnyddoedd 1 a 2. Mae pynciau'r seminarau'n cynnwys diwylliant, hanes a gwleidyddiaeth Sbaen. Mae'r rhain fel arfer yn para rhwng awr a dwy awr ac yn rhoi'r cyfle i ni drafod pynciau penodol yn fanylach. Er bod pynciau ac amserlen y seminarau wedi eu gosod o flaen llaw, rwy'n datblygu fy neunyddiau seminar fy hun gyda chefnogaeth gan y tîm academiaidd. Rwy'n defnyddio llwyfan Rhith-amgylchedd Dysgu'r Prifysgol i gynnal adnoddau a gweithgareddau.

Rwyf hefyd yn addysgu'r modiwl Mandarin i Ddechreuwr, a gynigir i bob myfyrwr iaith israddedig yn eu hail flwyddyn; mae hyn yn cynnwys darlith wythnosol i tua 40 o fyfyrwr israddedig a phedwar tiwtorial yr wythnos i grwpiau o 4-5 o fyfyrwr.

Enghraifft 2:

Rwy'n llyfrgellydd profiadol, gyda chymwysterau proffesiynol ym Mhrifysgol X ac mae gen i gyfrifoldeb penodol am gefnogi myfyrwr yng Nghyfadrann y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, ac rwyf hefyd yn helpu i ddarparu agenda sgiliau academiaidd y llyfrgell. Rwyf wedi gweithio yn y Brifysgol ers tair blynedd ac rwy'n rhan o dîm bychan o bedwar aelod o staff y llyfrgell yn y gyfadrann. Mae'r Brifysgol yn brifysgol fodern fawr gyda phedair cyfadrann a thua 20,000 o fyfyrwr israddedig ac 8,000 o fyfyrwr ôl-raddedig. Mae fy nghyfadrann yn denu cyfran uchel o fyfyrwr ail iaith rhyngwladol.

Mae fy mhrif waith addysgu'n waith wyneb yn wyneb mewn sesiynau yn y dosbarth ar amserlen gyda grwpiau o 20-30 o fyfyrwr israddedig blwyddyn gyntaf yn eu semester cyntaf. Rwy'n gweithio'n agos â staff academiaidd ac rwy'n cynllunio fy sesiynau i gyd-fynd ag amcanion eu rhaglenni. Mae fy sesiynau'n para hyd at 1.5 awr fel arfer.

Rwyf hefyd yn llunio ac yn darparu sesiynau hunan-gofrestru wyneb yn wyneb gyda grwpiau bach o fyfyrwr israddedig ac ôl-raddedig ar ein prif safle a myfyrwr yn ein dau gampws tramor drwy gyswllt fideo.

Ar hyn o bryd rwy'n cymryd rhan mewn prosiect ledled y Brifysgol i ganfod cydberthynas rhwng presenoldeb mewn gweithdai sgiliau a chyrhaeddiad, yn enwedig i grwpiau sydd wedi tanberfformio'n hanesyddol.

6.3 Strwythuro eich Cyfrif Adfyfyriol o Arferion (RAP)

Mae'r **Cyfrif Adfyfyriol o Arferion (RAP)** ysgrifenedig wedi ei rhannu'n ddwy adran; rydych yn ysgrifennu am eich gwaith mewn perthynas â **dwyr o'r pum Maes Gweithgaredd (PSF)**. Dylech ddewis ysgrifennu am y ddau Faes Gweithgaredd sydd fwyaf priodol i'ch gwaith chi (gwelwch Adran 6 isod i gael rhagor o arwweiniad). Bydd gennych 700 o eiriau ar gyfer pob un o'r ddau faes.

Yn ogystal ag ymdrin â dau Faes Gweithgaredd, i ymdrin â D1.III byddwch hefyd angen sicrhau eich bod, ar draws dwyr adran y RAP, yn cynnwys tystiolaeth i ddangos eich bod yn gwneud defnydd effeithiol o **Wybodaeth Graidd 1 (K1)**: y deunydd pwnc, a'r **Wybodaeth Graidd 2 (K2)**: dulliau priodol o addysgu, dysgu ac asesu yn y maes astudio ac ar lefel y ddarpariaeth AU.

Yn ogystal â K1 a K2, wrth ddarparu enghreifftiau o'ch gwaith ymhob adran o'ch RAP, rydych yn debygol hefyd o nodi rhai agweddau o Wybodaeth Graidd arall (K3-K6) yr ydych yn eu defnyddio yn eich gwaith. Yn yr achosion hyn, dangoswch yn glir pam a sut yr ydych yn defnyddio'r rhain.

Mae Disgrifydd 1 yn gofyn i chi ddangos eich ymrwymiad i **Werthoedd Proffesiynol priodol** wrth hwyluso dysgu pobl eraill (D1.IV). Ystyriwch pa rai o'r Gwerthoedd Proffesiynol a ddefnyddiwch i hysbysu eich arferion a chynhwyswch enghreifftiau sy'n dangos eich defnydd o'r gwerthoedd hyn yn y RAP.

Byddwch yn gweld bod Adrannau 6 a 7 isod yn cyfeirio dro ar ôl tro at **ganllawiau Dimensiynau'r Fframwaith** AU Ymlaen oherwydd dylai'r arweiniad hwn eich helpu'n fawr i wneud cysylltiadau priodol rhwng eich arferion a Dimensiynau'r PSF a chanfod tystiolaeth berthnasol i'w chynnwys yn eich cais. Dylech hefyd drafod y Meysydd Gweithgaredd mwyaf priodol i chi eu defnyddio eich cais gyda'ch mentor.

Wrth i chi ddarparu tystiolaeth yn erbyn y Dimensiynau, dylech dynnu sylw at hyn lle mae'n berthnasol. Un ffordd o wneud hynny yw cyfeirio at y Dimensiwn yn eich testun, e.e. (V2) neu (K1) ac ati. Sicrhewch eich bod yn cysylltu dim ond â'r **Dimensiynau mwyaf perthnasol** ymhob achos (e.e. un neu ddau yr ydych wedi ymdrin â nhw mewn ffordd ystyrlon yn yr enghraifft benodol honno o waith) ac osgoi cynhyrchu rhestrau hir o gysylltiadau â Dimensiynau (e.e. K1, K2, K4, V1 V2, V3) oherwydd ni fydd hyn yn dangos eich ymgysylltiad *ystyrlon* â'r Dimensiynau.

Wrth benderfynu pa enghreifftiau o arferion rydych am eu defnyddio ar gyfer pob un o'r ddau Faes Gweithgaredd, ceisiwch ddefnyddio enghreifftiau gwahanol ymhob Maes sy'n dangos eich ymgysylltiad orau â Dimensiynau penodol. Mae'n bwysig nad ydych yn dibynnu ar yr un enghreifftiau yn y ddau Faes Gweithgaredd oherwydd mae hyn yn annhebygol o ddarparu tystiolaeth *ddigonol* bod eich gwaith yn ateb holl ofynion Disgrifydd 1. Ond, dewiswch eich enghreifftiau'n ofalus oherwydd bydd gormod o enghreifftiau'n cyfyngu ar eich gallu i ddangos eich arferion llwyddiannus ac effeithiol yn erbyn pob Maes Gweithgaredd er mwyn gwneud 'honiad' cryf yn erbyn Disgrifydd 1.

O fewn y nifer cyfyngedig o eiriau sydd ar gael i chi, ni fyddwch yn gallu ysgrifennu am bopeth a wnewch chi ac mae'n rhaid i chi fod yn ddetholus am yr enghreifftiau y dewiswch ysgrifennu amdanynt. Dewiswch yr enghreifftiau sy'n cyfleu eich gwaith orau ymhob Maes Gweithgaredd dewisedig ac sydd hefyd yn gadael i chi ddangos yr elfennau penodol o'r Wybodaeth Graidd a'r Gwerthoedd Proffesiynol sy'n ofynnol (gwelwch Adran 6.4 isod mewn perthynas â'r cyfyngiad geiriau).

6.4 Cyfyngiad geiriau'r RAP

Y cyfyngiad eiriau cyffredinol ar gyfer Cymrodoriaeth Gysylltiol RAP yw **1,400 o eiriau ynghyd â dyfyniadau (500 o eiriau); uchafswm cyffredinol o 1,900 o eiriau**. Nodwch fod y Swyddfa Academaidd yn gwirio'r cyfrifiad geiriau yn rhan o'r broses gyflwyno.

Rydym yn gofyn am oddeutu 700 o eiriau ymhob un o'r ddwy adran, ynghyd â dyfyniadau.

6.5 Myfyriwch ar eich arferion drwy eich RAP i gyd

I ddatblygu eich RAP mae gofyn i chi adnabod/gasglu ac ystyried tystiolaeth o'ch arferion, gan fyfyrwch ar y dylanwad rydych wedi ei gael ar ddysgu'r myfyrwyr. Wrth ysgrifennu eich RAP, dylech osgoi disgrifiadau hir o'r pethau a 'wnewch' a siaradwch yn **adfyfyrion** er mwyn dangos yn glir beth rydych yn ei wneud, sut/pam rydych yn eu gwneud yn y ffordd honno, sut y gwyddoch fod hyn yn effeithiol a'r hyn y byddwch yn ei wneud yn y dyfodol o ganlyniad iddo.

Un **model adfyfrio syml** i chi ei ddefnyddio drwy gydol eich RAP efallai fyddai esbonio'n glir:

- **Beth** wnewch chi (byddwch yn ddetholus â'r enghreifftiau y dewiswch eu cynnwys – gwelwch Adran 6.3);
- **Pam** rydych yn ei wneud yn y ffordd yma; esboniwch eich dull yn glir a rhwch gyfiawnhad am eich dewisiadau a'ch penderfyniadau (e.e. defnyddio Gwerthoedd Proffesiynol i dywys y cynllunio, defnyddio sail dystiolaeth briodol i hysbysu eich dull, ac ati);
- **Sut** rydych yn gweithredu'r dull hwn (e.e. yn cynnwys unrhyw heriau penodol neu faterion ymarferol rydych wedi eu goresgyn);
- Sut rydych yn **gwerthuso effeithiolrwydd** yr hyn a wnewch (esboniwch y mathau o 'wybodaeth' rydych yn eu defnyddio i adolygu a gwerthuso eich gwaith, yn cynnwys yr effaith y mae hyn yn ei gael ar ddysgu eich myfyrwyr);
- **Pa newidiadau** rydych wedi eu gwneud o ganlyniad i werthuso eich effeithiolrwydd (er enghraifft, efallai eich bod wedi addasu sesiwn mewn ymateb i adborth gan fyfyrwyr/cymheiriaid ac yna wedi gwerthuso effeithiolrwydd y newid a wnaethoch);
- Sut rydych yn sicrhau eich bod yn **parhau i ddatblygu a gwella** eich arferion; er enghraifft, cymryd rhan mewn adolygiad gan gymheiriaid, datblygu eich sail dystiolaeth (D1.V) neu gymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol (D1.VI), ac ati a defnyddio'r dysgu hwn i wella eich arferion (defnyddiwch enghreifftiau i esbonio).

6.6 Cyfeiriwch at y sail dystiolaeth sy'n hysbysu ac yn tanategu eich arferion (D1.V)

Bydd angen i chi gyfeirio at arferion proffesiynol perthnasol, ymchwil addysgeg a phwnc a/neu ysgoloriaeth o fewn eich cais (D1.V) i esbonio sut/pam rydych wedi dewis y dulliau a ddefnyddiwyd gennych. Bydd y ffordd yr ydych wedi dangos tystiolaeth o hyn yn dibynnu ar y cyd-destun yr ydych yn gweithio ynddo, natur y pwnc, y ddisgyblaeth neu'r proffesiwn yr ydych yn addysgu ynddo a chyd-destun/disgwyliadau'r sefydliad y gweithiwyd ynddo.

Wrth i chi ysgrifennu am eich dull o addysgu a dysgu yn eich RAP, dylech ddyfynu/cyfeirio at y 'sail dystiolaeth' a ddefnyddiwyd i hysbysu eich arferion lle bo'n briodol o fewn eich RAP. Er enghraifft, efallai y gallech ddyfynnu llenyddiaeth ysgolheigaidd megis cyfnodolion (e.e. Smith 2019), cyhoeddiadau, llyfrau, gwefannau ac ati, neu gyfeirio at dystiolaeth gan gyrrff proffesiynol, diwydiant neu eich disgyblaeth (eich sail 'wybodaeth broffesiynol'). Pan fyddwch yn dyfynu cyfeiriad, rhaid iddo fod yn amlwg sut mae hwn wedi dylanwadu ar eich arferion (h.y. nid yw'r dyfyniad wedi ei 'ollwng i mewn' yn unig). Er enghraifft, gallech esbonio sut y cawsoch eich ysbrydoli gan destun penodol neu erthygl benodol mewn cyfnodolyn i gynllunio eich amgylchedd dysgu mewn ffordd benodol.

Pan fyddwch yn dyfynnu yn nhestun eich RAP, mae angen i chi gynnwys y cyfeiriad llawn mewn rhestr ar ddiwedd yr adran berthnasol o'ch RAP. Mae eich cyfyngiad geiriau'n cynnwys hyd at 200 o eiriau ar gyfer eich rhestr gyfeiriadau. Gofynnwn i chi ddarparu rhestr llawn o'r holl gyfeiriadau yr ydych yn eu dyfynnu'n uniongyrchol fel bod yr adolygwyr yn gweld yn glir pa ffynonellau sydd wedi dylanwadu ar eich dull o ddysgu ac addysgu ac i roi credyd priodol i awdur/sefydliad sydd wedi ysbrydoli unrhyw feysydd o'ch gwaith. Nodwch na dderbynnir troednodiadau.

Mae'r **dyfyniad** byr hwn o gais am Gymrodoriaeth Gysylltiol yn dangos sut mae'r ymgeisydd yn **defnyddio eu sail dystiolaeth i hysbysu eu gwaith (D.V)** ac yn dangos hyn yn eu cais:

'Wrth lunio fy narlith fy hun, cefais fy nylanwadu'n drwm gan ddamcaniaeth Burgstahler (2015) o ddyluniad cyffredinol. Yn hytrach na gosod hygyrchedd i mewn i'r addysgu yn ôl-syllol (fel yr oeddwn wedi ei wneud ar gyfer fy seminarau cyntaf) cefais y cyfle i adeiladu hygyrchedd i mewn o'r dechrau (DV, V2)'.

Y Rhestr Gyfeirio ar gyfer y dyfyniad

Burgstahler, S. (2015). *Equal access: Universal design of instruction. A checklist for inclusive teaching*. Seattle: DO-IT, Prifysgol Washington. Ar gael ar http://www.washington.edu/doi/Brochures/Academics/equal_access_udi.html (cyrchwyd 4/02/20)

6.7 Ymgysylltiad mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol yn ymwneud â chyfrifoldebau addysgu, dysgu ac asesu (D1.VI)

Mae ymgysylltiad mewn dysgu proffesiynol parhaus yn rhan annatod o'ch rôl fel addysgwr. Dylai eich RAP adlewyrchu eich ymgysylltiad mewn datblygiad proffesiynol sy'n berthnasol i'ch rôl a'ch cyfrifoldebau addysgu a dysgu a dangos yn glir sut mae'r dysgu yr ydych wedi ei gymryd o'r datblygiad hwn wedi ei ddefnyddio yn eich gwaith a/neu wedi gwella eich gwaith. Mae angen tystiolaeth o'ch ymgysylltiad mewn gweithgareddau datblygu proffesiynol ar gyfer ymdrin â D1.VI a Dimensiynau V3 a A5 er enghraifft.

Efallai eich bod yn mynd i ddigwyddiadau ffurfiol fel cyrsiau/gweithdai/symposia/cynadledau ond gall gweithgareddau 'datblygu proffesiynol' hefyd gynnwys cyfleoedd dysgu ffurfiol/anffurfiol. Er enghraifft, dysgu gan gydweithwyr (e.e. adolygiad cymheiriaid / mentora / datblygiad cwricwlwm / blogiau, ac ati), gan fyfyrwyr (myfyrwyr fel partneriaid yn gweithio / grwpiau ffocws / ymchwil gweithredu ac ati), o ddamcaniaeth ysgolheigaidd, profiad yn y proffesiwn/diwydiant ac ati.


Enghraifft i ddangos sut y gallech integreiddio tystiolaeth o D1 .VI i mewn i'ch cais:

Os ydych yn addysgu ar radd cyfrifeg, gallech gynnwys eich presenoldeb mewn digwyddiad ar reoliadau treth newydd. Yna gallech drafod sut mae'r dysgu proffesiynol newydd hwn wedi effeithio ar eich gwaith drwy, er enghraifft, ddiweddarau'r cwricwlwm (A1/K1) a/neu adolygu'r adnoddau (A4/K1/K2) a ddarparwch i'ch dysgwyr.

7. Dangos Tystiolaeth ar gyfer Dimensiynau PSF sy'n ofynnol ar gyfer Disgrifydd 1

Er bod y RAP ar gyfer ceisiadau Cymrodoriaeth Gysylltiol wedi ei strwythuro o amgylch **dau** o'r pum Maes Gweithgaredd, nid yw hynny'n golygu bod y Meysydd o Weithgaredd yn bwysicach na Dimensiynau Gwybodaeth Graidd neu Werthoedd Proffesiynol y PSF; bydd y Dimensiynau'n **rhyng-ddibynnol ac wedi eu hintegreiddio** yn eich arferion proffesiynol; mewn geiriau eraill, y Meysydd o Weithgaredd yw'r hyn a wnewch chi, y Wybodaeth Graidd yw'r hyn rydych angen ei wybod er mwyn gwneud y gwaith hwn yn effeithiol a dylai'r Gwerthoedd Proffesiynol hysbysu a thanategu eich gwaith.

Yn y 1,400 o eiriau yn eich RAP, yn ogystal â dangos tystiolaeth o ddau Faes Gweithgaredd, mae angen i chi sicrhau eich bod yn dangos tystiolaeth o Wybodaeth Graidd 1 a 2 (K1 a K2) a'r Gwerthoedd Proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer Disgrifydd 1.



Ffigur 1: Yn dangos sut mae Dimensiynau PSF yn integreiddio yn Nisgrifydd 1

Cymrodoriaeth Gysylltiol (Disgrifydd 1)

Enghraifft i ddangos sut mae'r Dimensiynau'n rhyng-ddibynnol ac wedi eu hintegreiddio:

Mae dylunio a chynllunio gweithgaredd dysgu'n llwyddiannus (A1) yn gofyn i chi ddefnyddio'r lefel briodol o wybodaeth am y pwnc (K1) a dewis dulliau dysgu ac addysgu priodol (K2). Hefyd mae angen i chi ystyried anghenion unigolion o fewn eich grŵp myfyrwyr (V1) a chynllunio'n briodol fel bod gan eich myfyrwyr i gyd y cyfle i gymryd rhan yn llawn yn y gweithgareddau dysgu rydych yn eu cynllunio (V2).

Mae'r **canllaw i Ddimensiynau'r Fframwaith** yn rhoi rhai enghreifftiau nodweddiadol i'ch helpu i weld ymhle'r ydych yn defnyddio Gwybodaeth Graidd a Gwerthoedd Proffesiynol PSF yn eich gwaith. Ymhob un o'r ddau Faes Gweithgaredd, dewiswch ddangos tystiolaeth o ddim ond agweddau'r Wybodaeth Graidd a Gwerthoedd Proffesiynol sy'n arbennig o berthnasol i'ch gwaith yn y Maes hwnnw.

Enghraifft i ddangos sut mae Gwerthoedd Proffesiynol yn hysbysu cynllunio gweithgareddau sesiwn (A1):

Aeth Ade i weithdy Prifysgol am gefnogi dysgu ar y sbectrwm awtistig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r heriau y mae un o'i fyfyrwyr yn eu hwynebu (V1, D1.V1). Yn nes ymlaen, darlennodd erthygl a argymhellwyd iddo gan hyrwyddwr y gweithdy oedd yn hynod o berthnasol i gyd-destun ei ddisgyblaeth ef. Mae'n esbonio sut mae'n mynd ati yn awr i gynllunio gweithgareddau ei sesiwn a'r amgylchedd dysgu i sicrhau fod ei fyfyrwyr yn gallu cymryd rhan yn llawn yn y dysgu (K3, A4, V2).

Mae Adran 8 isod yn canolbwyntio ar bob un o'r pum Maes Gweithgaredd. Ar ôl pob Maes Gweithgaredd rhoddir enghraifft i'ch cefnogi ymhellach i ddeall sut y gallech ddangos tystiolaeth o'r Dimensiynau PSF gofynnol wrth ysgrifennu am ddau Faes Gweithgaredd mewn cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol.

8. Tystiolaeth o ddau Faes Gweithgaredd

Mae penderfynu ar y ddau Faes Gweithgaredd i seilio eich RAP arnynt yn gam pwysig wrth gynllunio a datblygu eich cais. Efallai yr hoffech ystyried pob un o'r pum Maes Gweithgaredd ac yna wneud dewis pan fyddwch wedi mapio eich tystiolaeth debygol yn erbyn pob un er mwyn i chi allu gweld pa Feysydd Gweithgaredd fydd yn gwneud yr honiad cryfaf yn erbyn Disgrifydd 1. Ar y llaw arall, efallai y bydd yn amlwg iawn i chi ar unwaith bod tystiolaeth yn gysylltiedig â dau Faes Gweithgaredd penodol oherwydd natur eich gwaith arbenigol.

Mae'r arweiniad isod yn esbonio pob un o'r Meysydd Gweithgaredd ymhellach. Wrth i chi ystyried pob Maes Gweithgaredd isod, dylech hefyd gyfeirio'n agos at ddogfen(nau) arweiniad **Dimensiynau'r Fframwaith** pan fyddwch yn ystyried pa enghreifftiau o arferion y gallech ddewis ysgrifennu amdanynt.

Cofiwch fod raid i chi hefyd ddangos tystiolaeth yn y ddau Faes Gweithgaredd o Wybodaeth Graidd 1 a 2 (K1 a K2) a Gwerthoedd Proffesiynol priodol o leiaf i gyflawni Disgrifydd 1; yn ogystal â dangos eich ymgysylltiad effeithiol ag ysgolheictod (D1.V) a datblygiad proffesiynol (D1.VI).

8.1 Dangos Tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 1: Cynllunio a dylunio gweithgareddau dysgu a/neu raglennni astudio

Mae Maes Gweithgaredd 1 yn cyfeirio at yr hyn a wnewch i gynllunio a dylunio gweithgareddau dysgu, boed hynny wyneb yn wyneb neu mewn amgylchedd dysgu rhithiol.

Y ffocws ym Maes Gweithgaredd 1 (A1) yw'r paratoad a wnewch chi ar gyfer eich ymgysylltiad â dysgwyr. Felly, nid yw'r ffocws ar eich arferion addysgu nac ar yr amgylchedd dysgu, sy'n rhan o A2 a A4 (er bod gorgyffwrdd rhwng A1 a'r Dimensiynau hyn). Er bod Maes Gweithgaredd 1 yn ymwneud â dylunio a chynllunio gweithgareddau dysgu, bydd angen i chi ddangos bod eich cynllunio a'ch dylunio wedi bod yn effeithiol: h.y. rydych yn adfyfyrio ar effeithiolrwydd y gwaith sydd wedi digwydd ac nid arferion sydd gennych wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol.

Bydd y dystiolaeth o lunio a chynllunio gweithgareddau dysgu'n amrywio yn dibynnu ar gyd-destun eich gwaith ac mae nifer o wahanol fathau o dystiolaeth yn erbyn Maes Gweithgaredd 1 y gallai Cymrodorion Cysylltiol ddangos tystiolaeth ohonynt. Bydd **canllawiau Dimensiynau'r Fframwaith** yn rhoi amrywiaeth o esiamplau nodweddiadol y mae ymgeiswyr yn eu defnyddio fel tystiolaeth yn erbyn Disgrifydd 1. Yn dibynnu ar eich rôl a'ch cyd-destun, efallai y byddwch yn llunio a chynllunio gweithgareddau dysgu unigol a/neu sesiynau mewn modiwlau, cyrsiau a rhaglenni ond efallai y byddwch yn cyfrannu at lunio a chynllunio rhaglen astudio gyfan.

Bydd gwahanol ffactorau'n effeithio ar y ffordd yr ydych yn cynllunio a pharatoi eich gweithgareddau dysgu, er enghraifft; lefel AU y myfyrwyr, y canlyniadau dysgu ar gyfer modiwl/rhaglen o astudio neu weithgaredd cefnogi dysgu. Mae angen i chi ddangos eich bod yn deall bod yr hyn sydd gennych wedi ei gynllunio yn briodol i'ch dysgwr/dysgwyr. Ymhob achos, dylai eich llunio a'ch cynllunio adlewyrchu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o Wybodaeth Graidd berthnasol a chael ei hysbysu gan Werthoedd Proffesiynol priodol.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif ffyrdd yr ydych yn llunio a chynllunio gweithgareddau dysgu/sesiynau/modiwlau/uneda/cyrsiau (fel sy'n briodol i'ch gwaith chi);
2. Y rhesymau am eich dewis o:
 - a. ddeunydd pwnc;
 - b. yr agweddau/dulliau a ddefnyddir;
 - c. gweithgareddau dysgu / technolegau / adnoddau sydd wedi eu cynnwys yn eich cynllun.
3. Sut rydych yn gwneud dewisiadau i hwyluso dysgu sy'n addas i anghenion eich dysgwyr a'r amcanion dysgu/lefel/maes astudio/cwricwlwm ac ati;
4. Sut a phryd rydych wedi cynnwys Gwybodaeth Graidd a Gwerthoedd Proffesiynol yn yr enghreifftiau o'ch gwaith yr ydych yn eu trafod;
5. Pa mor effeithiol y mae eich llunio a'ch cynllunio wedi rhoi profiad dysgu da i'ch myfyrwyr i gyd.

Cynhwyswyd yr enghraifft isod i'ch helpu i ddeall sut y gellir dangos tystiolaeth o arferion sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 1 a'u cysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill.

Enghraifft i gefnogi'r meddwl am A1: Cynllunio cyfres fer o weithdai sgiliau astudio

Yn ddiweddar mae Hassan wedi cynnal cyfres fer o weithdai sgiliau astudio ar gyfer myfyrwyr israddedig blwyddyn gyntaf ac mae'n penderfynu defnyddio hyn fel un o'i esiamplau o dystiolaeth tuag at A1.

Yn yr enghraifft hon, mae Hassan yn esbonio sut y defnyddiodd ei wybodaeth am sgiliau astudio wrth lunio a chynllunio'r gweithdai (K1). Mae'n trafod anghenion penodol ei grŵp blwyddyn gyntaf o fyfyrwyr is-raddedig a sut mae wedi ystyried amrywiaeth eu profiad dysgu blaenorol a'u hanghenion dysgu unigol i gynllunio ei ddull (K2, V1). Mae'n amlinellu'r heriau y mae tiwtoriaid eraill wedi eu hwynebu yn y gorffennol wrth ddarparu'r gweithdai hyn, mae'n trafod sut y cynlluniodd i oresgyn yr heriau hyn ac mae'n esbonio pam roedd yn teimlo mai dyma'r dull gorau i'w ddefnyddio gyda'r grŵp hwn (V3).

Mae Hassan yn esbonio sut y dyluniodd y gweithgareddau dysgu i gysylltu â disgyblaeth arbennig y myfyrwyr (K2), gan ddefnyddio dwy erthygl a ddarlennodd oedd yn cynnwys ymchwil ar ddysgu yn y maes hwn (K3, V3).

Bu Hassan yn gwerthuso'r sesiynau drwy gael y myfyrwyr i roi adborth ar ôl y sesiwn olaf. Yna mae'n myfyrio ar yr hyn a weithiodd yn dda a beth oedd heb weithio'n dda, beth a ddysgodd o'r profiad a sut mae'n bwriadu newid agweddau o gyfres gweithdai'r flwyddyn nesaf o ganlyniad i hynny (K5).

8.2 Rhoi Tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 2: Addysgu a/neu gefnogi dysgu

Mae'r Maes Gweithgaredd hwn yn ymwneud â'ch ymgysylltiad a'ch rhyngweithio uniongyrchol â dysgwyr p'un a ydynt mewn grwpiau neu'n unigol, wyneb yn wyneb neu o bell. Yn dibynnu ar y cyd-destun yr ydych yn addysgu a/neu'n cefnogi dysgu ynddo, efallai fod eich gwaith wedi ei seilio mewn sesiynau ffurfiol, ar amserlen, neu gallent fod y tu allan i ddosbarthiadau wedi eu hamserlennu ac yn fwy anffurfiol eu natur.

Yn dibynnu ar natur eich gwaith, gallai eich tystiolaeth ar gyfer Maes Gweithgaredd 2 gynnwys addysgu neu gefnogi gweithgareddau dysgu fel darlithio, tiwtorialau a gwaith seminar, stiwdio, clinigol, labordy, goruchwyliaeth, mentora neu addysgu yn y gweithle, dysgu ar-lein a defnyddio amgylcheddau dysgu rhithiol, ac ati. Mae canllawiau **Dimensiynau'r Fframwaith** yn rhoi rhai enghreifftiau nodweddiadol o weithgareddau addysgu a/neu gefnogi dysgu y dangoswyd tystiolaeth ohonynt gan Gymrodorion Cysylltiol.

Dylai'r enghreifftiau y dewiswch eu cynnwys yn eich cais ddangos eich ymwybyddiaeth o wahanol agweddau a dulliau o addysgu a/neu gefnogaeth i ddysgu sy'n briodol i'ch cyd-destun ac esbonio sut rydych wedi dysgu'r ffordd fwyaf priodol o ateb anghenion eich dysgwyr a chyflawniad yr amcanion dysgu.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif ffyrdd yr ydych yn addysgu a/neu'n cefnogi dysgwyr;
2. Y gweithgareddau neu'r technegau a ddefnyddiwyd a'r sail resymegol am y dewis hwn. Sut mae eich addysgu/cefnogaeth i ddysgu'n cael ei ddylanwadu gan eich grŵp/grwpiau myfyrwyr a'r amcanion/nodau dysgu?
3. Yn eich barn chi, pam mae eich technegau/gweithgareddau dysgu/addysgu wedi llwyddo i gefnogi dysgu'r myfyrwyr? A oes unrhyw newidiadau y bwriadwch eu gwneud yn y dyfodol a pham?
4. Sut rydych yn ymgorffori Dimensiynau'r Fframwaith, megis:
 - + y Wybodaeth Graidd a ddefnyddiwyd gennych;
 - + Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol a ddefnyddiwyd gennych i hysbysu eich arferion.

Cynhwyswyd yr enghraifft isod i'ch helpu i ddeall sut y gellir dangos tystiolaeth o arferion sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 2 a'u cysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill.

Enghraifft i gefnogi'r meddwl am A2: Dangosiad mewn sesiwn labordy ymarferol

Mae Mia, sy'n ymchwilydd ym mlynnyddoedd cynnar ei gyrfa, wedi bod yn dangos technegau dadansoddi cemegol i grŵp o fyfyrwyr israddedig yn eu hail flwyddyn ac yn eu cefnogi i ddefnyddio'r technegau hyn mewn cyfres o sesiynau labordy ymarferol. Mae Mia yn defnyddio hyn yn rhan o'i thystiolaeth tuag at Faes Gweithgaredd 2.

Mae Mia yn gwybod bod myfyrwyr ail flwyddyn yn gweld y wybodaeth ddamcaniaethol sy'n gysylltiedig â'i phwnc yn heriol ac yn deall mor ddefnyddiol yw arbrofion ymarferol o ran eu cefnogi i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r pwnc. Mae hi'n trafod sut yr oedd hi'n defnyddio ei gwybodaeth am ei disgyblaeth (alinio gyda'i maes ymchwil yn yr achos arbennig hwn) sy'n tanategu'r arbrawf (K1) ac yn cyfeirio at lenyddiaeth addysgeg berthnasol am y ffordd y mae dysgwyr yn datblygu sgiliau ymarferol yn ei disgyblaeth (V3, K2). Am fod y gyfres labordy ymarferol hon yn llawer mwy datblygedig na sesiynau labordy blwyddyn gyntaf sylfaenol, mae Mia yn trafod sut mae hi'n rhannu'r sesiynau ymarferol yn gamau clir fel ei bod yn gallu asesu ymgysylltiad myfyrwyr unigol a'u dealltwriaeth o'r arbrawf wrth iddi weithio gyda nhw, gan addasu ei harweiniad wrth fynd (K2).

Mae Mia wedi ystyried amrywiaeth y grŵp dysgu ac mae hi'n trafod sut y mae hi'n sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn gallu cymryd rhan yn llawn. Mae rhai myfyrwyr yn aeddfed, daeth rhai yn uniongyrchol i'r brifysgol yn 18 oed, mae nifer o fyfyrwyr o wledydd eraill ac mae rhai o'r rhain yn ei chael hi'n anodd deall peth o iaith gymhleth y ddisgyblaeth. Mae gan un myfyriwr nam ar y clyw. Mae Mia yn darparu nodiadau am yr arbrawf cyn y sesiwn ac mae'r rhain ar gael i'r myfyrwyr i gyd drwy'r Rhith-amgylchedd Dysgu; mae'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol i'r myfyrwyr sy'n gweithio mewn ail iaith ac i'r myfyriwr sydd â nam ar y clyw (V1 a V2). Mae Mia yn gwybod bod darparu defnydd o flaen llaw i amrywiaeth o fyfyrwyr yn bwysig am ei bod wedi mynychu gweithdy DPP ar gynhwysiant, ac roedd hi wedi cael hwn yn ddiddorol a defnyddiol. O ganlyniad i fynd i'r gweithdy hwn, mae Mia yn edrych ar ffyrdd o addasu ei harferion addysgu ymhellach i sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn gallu cymryd rhan yn llawn (V1 and V2).

8.3 Dangos Tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 3: Asesu a rhoi adborth i ddysgwyr

Mae Maes Gweithgaredd 3 yn gofyn eich bod chi'n meddwl am y ffordd y defnyddiwyd asesiad ac adborth i hyrwyddo a chefnogi dysgu. Nid yw Maes Gweithgaredd 3 yn gofyn i chi farcio gwaith myfyrwyr yn grynodol ar gyfer credyd academiaidd ond gall ymwneud ag asesiad ffurfiannol anffurfiol dysgwyr yn y lleoliad AU.

Gallech ddefnyddio dulliau asesu ffurfiannol a/neu grynodol, ffurfiol a/neu anffurfiol. Gallai eich adborth gael ei ddarparu wyneb yn wyneb, yn ysgrifenedig, neu gan ddefnyddio dulliau electronig fel podlediadau a'r cyfryngau cymdeithasol. Nid yw asesiad ac adborth bob amser yn 'ffurfiol' a 'chrynodol'. Lle maen nhw'n berthnasol i'ch arferion gallech gynnwys gwaith gyda myfyrwyr ymchwil, cydweithwyr a chyfoedion a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dysgwyr mewn cyd-destunau cefnogi dysgu; ond, mae'n rhaid iddynt ymwneud â darpariaeth AU.

Fel Cymrawd Cysylltiol, efallai nad ydych yn gosod neu'n ysgrifennu meini prawf asesu, ond

byddwch angen dangos eich bod yn deall y rôl bwysig y mae asesiad ac adborth yn ei chwarae i gefnogi dysgu eich myfyrwyr a dangos eich defnydd effeithiol o asesiad a dulliau adborth/bwydo ymlaen. Dylech esbonio sut yr ydych yn dewis y dull mwyaf priodol i gyflawni eich amcanion dysgu a defnyddio meini prawf i wneud beirniadaethau hysbys, ffurfiannol a/neu grynodol am waith dysgwyr, gan ddarparu adborth adeiladol a chefnogol y gellir gweithredu arno.

Yn dibynnu ar natur eich arferion, gallech dynnu eich tystiolaeth ar gyfer Maes Gweithgaredd 3 o amrywiaeth eang o weithgareddau, fel sesiynau addysgu, tiwtorialau un i un, gwaith ymarferol, arholiadau, marcio aseiniadau, cyflwyniadau, perfformiad byw, gwaith grŵp, asesiad diagnostig mewn gweithgareddau cefnogi dysgu, profion ar-lein, ac ati. Mae canllawiau **Dimensiynau'r Fframwaith** yn rhoi enghreifftiau pellach o'r mathau o weithgareddau lle gallech asesu a rhoi adborth i ddysgwyr. Mae'r arweiniad yma hefyd yn rhoi rhai enghreifftiau nodweddiadol o'r ffyrdd y mae Cymrodorion Cysylltiol yn rhoi tystiolaeth yn eu ceisiadau o'r ffordd y maen nhw'n asesu a rhoi adborth i fyfyrwyr.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif fathau o asesiad ffurfiannol a/neu grynodol a ddefnyddiwyd gyda dysgwyr, ac a ydyw'n ffurfiol neu'n anffurfiol;
2. Sut a pham rydych yn dewis y dulliau a'r agweddau arbennig hyn;
3. Sut rydych yn sicrhau bod eich asesiad yn ddibynadwy a bod y safonau a ddefnyddiwyd yn briodol;
4. Sut rydych yn rhoi adborth i ddysgwyr ac yn sicrhau ei fod yn cefnogi a gwella eu dealltwriaeth o'r pwnc, o'u perfformiad a/neu o'u datblygiad fel dysgwyr;
5. Sut rydych yn cynnwys Dimensiynau eraill o'r Fframwaith, er enghraifft:
 - + y Wybodaeth Graidd a ddefnyddiwyd gennych;
 - + Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol sy'n hysbysu eich arferion; er enghraifft, sut rydych yn sicrhau bod eich arferion asesu ac adborth yn deg a hygyrch i'ch myfyrwyr i gyd.

Cynhwyswyd yr enghraifft isod i'ch helpu i ddeall sut y gellir dangos tystiolaeth o arferion sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 3 a'u cysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill.

Enghraifft i gefnogi'r meddwl am A3: Asesu myfyrwyr mewn cyd-destun dysgu cyfunol

Mae Anton yn ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth sydd â rhai cyfrifoldebau addysgu. Mae'n cefnogi grŵp o fyfyrwyr ar fodiwl sy'n rhan o raglen ddysgu cyfunol mewn Celf a Dylunio. Un o brif agweddau ei rôl yw asesu gwaith myfyrwyr, yn enwedig yn ffurfiannol, a darparu adborth i'w helpu i baratoi ar gyfer eu hasesiad crynolodol sy'n dod i ben gyda 'sioe'. Mae mwyafrif yr astudio ar y rhaglen yn digwydd ar-lein, ac mae'r myfyrwyr yn mynd i'r campws ar gyfer un bloc o ddysgu bob tymor. Mae Anton yn defnyddio hyn yn rhan o'i dystiolaeth ar gyfer Maes Gweithgaredd 3.

Mae Anton yn gosod y cyd-destun ar gyfer ei arferion asesu ac yn esbonio'r dull y mae'n ei ddefnyddio i ddarparu adborth ffurfiannol ar waith y myfyrwyr, gan gysylltu hyn â gofynion y modiwl a'r 'sioe' grynolodol diwedd blwyddyn derfynol (K2). Wrth wneud hyn, mae'n cyfeirio at lenyddiaeth addysgeg y mae wedi ei darllen am asesu a darparu adborth priodol (V3). Mae'n trafod pwysigrwydd ei waith o ran darparu adborth ffurfiannol amserol a chefnogol i alluogi i fyfyrwyr ddatblygu eu gwaith cyn yr asesiad crynolodol derfynol.

Mae Anton yn esbonio sut mae'n gweithio gyda'r heriau a manteision amgylchedd ar-lein i roi cymorth ac arweiniad priodol i'w fyfyrwyr (K4, K2). Mae'n cyfeirio at erthygl ddiddorol a darllenodd am adborth ar-lein ac mae'n esbonio sut mae hyn wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'n gweithio erbyn hyn gyda myfyrwyr o bell (V3, K4).

Mae'r dull hyblyg hwn o astudio wedi denu rhai myfyrwyr aeddfed rhan amser ac mae Anton yn rhoi rhai esiamplau penodol o'r ffordd y mae wedi cefnogi anghenion myfyrwyr aeddfed rhan amser, sydd wedi dod yn ôl i astudio o'r newydd (V1 a V2).

Yna mae Anton yn trafod ei rôl yn yr asesiad crynolodol yn y sioe diwedd blwyddyn a'r ffordd y mae'n gweithio yn rhan o dîm i wneud beirniadaethau asesu am waith y myfyrwyr (K2). Mae wedi cymryd rhan mewn gweithdy datblygu tîm i'r tiwtoriaid i gyd ar y rhaglen hon; mae'n nodi beth mae wedi ei ddysgu yn y sesiwn hwn ac yn esbonio sut mae'n defnyddio'r dysgu hwn wrth wneud yr asesiad crynolodol yn y sioe diwedd blwyddyn (A5). Mae hefyd yn trafod rhai pethau y mae'n bwriadu eu gwneud yn wahanol y flwyddyn nesaf, ar sail cynnydd y myfyrwyr ac adborth canol modiwl, a pham ei fod yn credu y bydd y newidiadau hyn yn gwella'r dysgu ar y rhaglen (V3, K5).

8.4 Tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 4: Datblygu amgylcheddau dysgu effeithiol a dulliau o gefnogi ac arwain myfyrwyr

Mae Maes Gweithgaredd 4 yn ymwneud â'r ffordd yr ydych yn defnyddio amgylcheddau dysgu ffurfiol a/neu anffurfiol i hwyluso dysgu a sut yr ydych yn diwallu anghenion eich dysgwyr am gymorth ac arweiniad addysgol. Felly, mae Maes Gweithgaredd 4 yn cynnwys dwy elfen: yr amgylchedd dysgu (ffurfiol a/neu anffurfiol) a chymorth/arweiniad i fyfyrwyr; sef agweddau academaidd a bugeiliol eich gwaith.

Mae'n cynnwys sut yr ydych yn:

- defnyddio a rheoli amrywiaeth o amgylcheddau dysgu ffisegol neu rithiol fel eu bod yn briodol i anghenion eich dysgwyr. Mae'r 'amgylchedd dysgu' yn cynnwys yr amgylchedd ffisegol (e.e. y ddarlithfa, platfform ar-lein, gweithle ac ati). Gall hefyd gynnwys y 'diwylliant dysgu' er enghraifft, cyd-destun, disgyblaeth, diwylliant sefydliadol, ffyrdd o ymddwyn, ffyrdd o ryngweithio, ethos ac ati. Defnyddiwrch enghreifftiau o'ch arferion sy'n dangos tystiolaeth o'ch cyfraniad i'r amgylchedd dysgu oedd yn sicrhau ei fod yn effeithiol i'ch dysgwyr;
- gweithio gyda dysgwyr, efallai mewn cydweithrediad â gwasanaethau cymorth eraill, i sicrhau bod eich dysgwyr yn gallu cyrraedd a defnyddio amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu. Gallai'r cymorth gynnwys gweithgareddau fel tiwtora personol ac academiaidd, cefnogi anghenion dysgu ychwanegol, cyngor un i un, cwnsela, datblygu arferion i ateb anghenion unigol dysgwyr a chefnogi cymunedau dysgu amrywiol.

Bydd yr enghreifftiau y gallech eu defnyddio yn bersonol i'ch arferion chi ac yn dibynnu ar yr amgylcheddau ffisegol a rhithwir yr ydych yn addysgu a/neu'n cefnogi dysgwyr ynddynt, natur y pwnc neu'r ddisgyblaeth a'r mathau o ddysgwyr/ddysgwyr. Dylai'r pwyslais fod ar eich dealltwriaeth o bwysigrwydd yr amgylchedd/au dysgu, cydnabod y gwahanol ffyrdd o ddysgu sy'n digwydd o'u mewn; gallai amgylcheddau gynnwys mannau dysgu ffisegol a rhithiol, dysgu gweledol, ysgrifenedig a dysgu ar sail ymarfer, ac ati. Gallai gweithgareddau dysgu gyfeirio at gymorth gwahaniaethol i sicrhau cydraddoldeb cyfle a lefel briodol o her, cyngor un i un, cwnsela, cefnogi dysgwyr gydag anghenion dysgu penodol, ac ati.

Mae'r canllawiau **Dimensiynau'r Fframwaith** yn rhoi rhai enghreifftiau nodweddiadol o'r ffordd y mae Cymrawd Cysylltiol yn dangos tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 4.

Ysgrifennwch am:

1. Y prif fathau o amgylcheddau dysgu/gofodau yr ydych yn gweithio ynddynt a sut mae'r gwahanol amgylcheddau'n effeithio ar eich dysgwyr (ac arnoch chi);
2. Beth rydych yn ei wneud i ddatblygu amgylchedd dysgu effeithiol i'ch dysgwyr a pham;
3. Pa fathau o gefnogaeth ac arweiniad a rowch i'ch dysgwyr (ffurfiol a/neu anffurfiol);
4. Pam rydych yn dewis yr agweddau/strategaethau arbennig hyn a pha mor dda maen nhw wedi gweithio yn yr enghreifftiau a drafodwch. Sut rydych yn sicrhau bod eich gwaith yn gynhwysol;
5. Sut rydych yn cynnwys Dimensiynau eraill o'r Fframwaith, er enghraifft:
 - + y Wybodaeth Graidd a ddefnyddiwyd gennych a pham;
 - + Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol sy'n hysbysu eich arferion.

Cynhwyswyd yr enghraifft isod i'ch helpu i ddeall sut y gellir dangos tystiolaeth o arferion sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 4 a'u cysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill:

Enghraifft i gefnogi'r meddwl am A4: Mentora yn y gweithle

Mae Chen mewn rôl broffesiynol mewn lleoliad clinigol ond mae hefyd wedi ei chyflogi gan brifysgol i ddarparu mentora i fyfyrwyr israddedig wrth eu gwaith. Mae hi'n penderfynu ysgrifennu am Feysydd Gweithgaredd 2 a 4 yn ei chais, gan ganolbwyntio ar ei chymorth i nifer bychan o fyfyrwyr mewn lleoliad profiad gwaith i drosi'r dysgu o'u gwaith cwrs i'w harferion gyda chleientiaid/cleifion ar gyfer Maes Gweithgaredd 2. Yn yr enghraifft hon, mae hi'n canolbwyntio ar y ffordd y mae hi'n cefnogi dysgu'r myfyrwyr yn y cyd-destun clinigol yn rhan o'i thystiolaeth tuag at Faes Gweithgaredd 4.

Mae Chen yn trafod ei rôl o ran mentora myfyrwyr. Mae hi'n cyfeirio at lenyddiaeth am arferion ar sail tystiolaeth sy'n sylfaen i'w gwaith clinigol ei hun a dysgu'r myfyrwyr yn y gwaith (K1). Mae hi hefyd yn trafod yr hyfforddiant i fentoriaid y mae hi'n ei gael yn y brifysgol ac yn esbonio sut mae hi'n defnyddio rhai o'r enghreifftiau o'r sesiynau hyfforddi hynny (A5, V3) i'w helpu hi i ddarparu'r arweiniad i rai myfyrwyr sydd yn eu blwyddyn derfynol yn y lleoliad clinigol. Mae Chen yn trafod sut mae hi'n creu amgylchedd lle mae'r myfyrwyr yn teimlo bod cefnogaeth iddynt, bod her briodol a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi o fewn y cyd-destun clinigol hwn (V2).

Mae Chen yn dangos ei dealltwriaeth o'r canlyniadau dysgu y mae gofyn i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn pasio'r lleoliad arbennig hwn (K2) ac yn esbonio sut mae hi a mentoriaid lleoliad eraill wedi gweithio gyda thiwtor y modiwl yn y brifysgol i alinio'r elfennau academaidd gyda chyd-destun y gwaith (A4). Mae hi'n rhoi esiamplau o'r mathau o gwestiynau hybu y mae hi'n eu defnyddio gyda'r myfyrwyr i'w helpu i feddwl yn feirniadol am eu harferion clinigol (K1, K2). Mae Chen hefyd yn annog myfyrwyr i edrych ar hanes y cleifion ac yn cyflwyno'r rhain fel eu bod yn gallu rhoi peth adborth iddynt ar lafar ynglŷn â sut y gallent wella ar hyn a'i wneud yn fwy effeithiol (A3, K3).

Mae Chen hefyd yn ystyried anghenion dysgu penodol y grŵp hwn o fyfyrwyr o'i gymharu â myfyrwyr blwyddyn gyntaf y mae hi wedi eu mentora mewn lleoliad gwahanol yn y gorffennol (K2). Mae hi'n trafod pa mor berthnasol yw'r profiad arbennig hwn i gyflogadwyedd y myfyrwyr yn y dyfodol a sut mae hi'n sicrhau eu bod yn deall yn glir sut mae gofynion y Corff Proffesiynol yn berthnasol i'w gwaith yn y cyd-destun clinigol hwn (V4).

8.5 Dangos Tystiolaeth o Faes Gweithgaredd 5: Ymgysylltu â pharhau datblygiad proffesiynol mewn pynciau / disgyblaethau a'u haddysgeg, gan gynnwys ymchwil, ysgoloriaeth a gwerthuso arferion proffesiynol

Mae bod yn addysgwr AU proffesiynol yn gofyn gwybod am yr holl ddiweddariadau i'r cyd-destun y mae AU yn gweithredu ynddo, anghenion esblygol y myfyrwyr, datblygiadau yn y ddisgyblaeth, ymchwil ac ysgoloriaeth gyfredol, datblygiadau technolegol, arloesi mewn Addysgeg, ac ati; mae ymrwymiad i ddysgu proffesiynol parhaus yn allweddol i'r rôl. Mae Maes Gweithgaredd 5 yn ymwneud â'r ffordd yr ydych yn cynnal a datblygu eich gallu i berfformio eich rolau addysgu a chefnogi dysgu. Mae'r gweithgareddau hyn yn debygol o

fod yn estynedig, gan gynnwys mathau ffurfiol ac anffurfiol o ddatblygiad proffesiynol parhaus.

Dylech drafod eich ymgysylltiad parhaus mewn dysgu proffesiynol ffurfiol neu anffurfiol a'r ffyrdd cadarnhaol y mae'r dysgu hwn wedi effeithio ar eich gwaith a sut y gwyddoch hynny (drwy werthuso eich arferion).

Cyfeiriwch yma at unrhyw weithgareddau yr ydych wedi eu gwneud i ddiweddarau eich gwybodaeth am agweddau o ddysgu ac addysgu, er enghraifft gweithgareddau datblygu staff, cynadleddau ar ddysgu ac addysgu neu gyfranogaeth mewn prosiectau i ddatblygu dulliau dysgu. Mae'r canllawiau **Dimensiynau'r Fframwaith** yn cynnwys rhai enghreifftiau nodweddiadol o ddatblygiad proffesiynol y mae Cymrodorion Cyswllt yn cyfeirio ato yn eu ceisiadau.

Mae'r gweithgareddau a wnewch yn rhan o grŵp neu dîm yr un mor werthfawr ag yw gweithgareddau unigol. Gallech wneud eich gwaith ymchwil eich hun ond, fel Cymrawd Cysylltiol gallech fod yn fwy tebygol o ddefnyddio gwaith ymchwil pobl eraill (sy'n gysylltiedig â'ch pwnc neu addysgeg) i hysbysu eich arferion.

Dangoswch sut mae eich addysgu a'ch cymorth dysgu'n cael ei ddylanwadu gan wahanol fathau o weithgaredd ysgolheigaidd a/neu broffesiynol.

Esboniwch y ffyrdd yr ydych yn casglu gwybodaeth ac yn gwerthuso eich arferion eich hun i sicrhau eich bod yn darparu profiad dysgu o safon uchel a bod y myfyrwyr yn dysgu o'r broses.

Ysgrifennwch am:

1. Y ffordd yr ydych yn cysylltu â'ch gweithgareddau dysgu proffesiynol parhaus ac yn eu defnyddio i wella eich arferion;
2. Sut rydych yn cynnwys ysgolheictod a/neu ymchwil pynciol ac addysgeg yn eich gwaith;
3. Sut rydych yn casglu gwybodaeth ac yn gwerthuso effeithiolrwydd eich arferion proffesiynol eich hun;
6. Sut rydych yn ymgorffori Dimensiynau eraill o'r Fframwaith, er enghraifft:
 - + y Wybodaeth Graidd a ddefnyddiwyd;
 - + Gwerthoedd Proffesiynol perthnasol sy'n hysbysu eich arferion.

Cynhwyswyd yr enghraifft isod i'ch helpu i ddeall sut y gellir dangos tystiolaeth o arferion sy'n gysylltiedig â Maes Gweithgaredd 5 a'u cysylltu ag ymgysylltiad â Dimensiynau eraill.

Enghraifft i gefnogi'r meddwl am A5: tiwtor rhan amser yn gweithio mewn diwydiant ac yn rhan o dîm rhaglen

Mae Alex yn diwtor rhan amser ar raglen is-raddedig mewn Cynhyrchu Ffilm. Mae hi hefyd yn gweithio yn y diwydiant. Mae hi'n trafod effaith ei datblygiad proffesiynol sy'n (i) berthnasol i ddiwylliant ac sy'n (ii) berthnasol i addysgu ar y profiad dysgu y mae hi'n ei roi i'w myfyrwyr.

(i) Enghraifft sy'n gysylltiedig â diwydiant:

Mae Alex yn trafod sut mae ei datblygiad proffesiynol mewn diwydiant yn cefnogi ei rôl fel tiwtor ar y rhaglen; mae hi'n gwneud yn siŵr ei bod yn diweddarau ei gwybodaeth yn rheolaidd am offer a meddalwedd drwy ddarllen cyfnodolion proffesiynol, mynd i ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol a gweithio gyda phobl broffesiynol eraill. Yn ogystal â bod yn arbenigwr ar ei maes arbenigol eu hun, mae Alex yn esbonio sut mae ei gwaith ar setiau ffilm ar draws y byd yn ei galluogi i gydweithio â phobl broffesiynol eraill a sut mae hi'n defnyddio'r wybodaeth a'r mewnwelediad y mae hi'n eu cael i'w helpu i addysgu o safbwynt ehangach ar sail y diwydiant (K1, V3). Mae hi'n trafod sut mae hyn yn effeithio ar brofiad dysgu ei myfyrwyr a'u parodrwydd i weithio yn y diwydiant byd-eang (K3, V4).

(ii) Enghraifft yn ymwneud ag addysgu:

Mae Alex yn trafod ei hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu. Mae holl aelodau tîm y rhaglen yn cymryd rhan yn frwd mewn gwneud adolygiadau cymheiriad o'r addysgu ac mae Alex yn rhoi nifer o enghreifftiau o'r ffordd y mae arsylwi ei chydweithiwr a chael eu harsylwi gan gymheiriaid profiadol wedi dylanwadu ar eu hagwedd tuag at eu harferion addysgu eu hunain. O ganlyniad i'r profiadau hyn, mae hi hefyd wedi dechrau darllen rhagor am y ffordd y gall myfyrwyr ddysgu yn ei disgyblaeth ac mae hi'n defnyddio'r wybodaeth newydd hon yn ei harferion addysgu (K2, K3).

Mae tîm y rhaglen yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac mae Alex yn esbonio sut mae'r rhain yn ei helpu i ddeall lle mae ei sesiynau'n ffitio i mewn i weddill y modiwl a'r rhaglen (K2, K1). Mae hi hefyd yn trafod yr hyn mae hi wedi ei ddysgu am effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau o addysgu o drafodaethau ei chydweithwyr yn y cyfarfodydd ac o'r adborth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n mynychu (K5, V3).

9. Datganiadau Cefnogi

Mae'n rhaid i'ch cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol gael ei ardystio gan Ddatganiad Cefnogi gan **un canolwr**. Defnyddir y rhain i gadarnhau bod eich cais yn cyflwyno adlewyrchiad teg a chywir o'ch arferion Addysg Uwch.

Mae'r **Datganiad Cefnogi yn cefnogi** eich honiad ac ni fydd yn cyfrannu tuag at ganlyniad y broses adolygu; h.y. bydd angen i'r adolygwyr weld tystiolaeth ddigonol o arferion effeithiol yn eich Cyfrif am eich Arferion Proffesiynol i ateb Disgrifydd 1 os ydynt am ddyfarnu Cymrodoriaeth Gysylltiol.

Dylai eich canolwr weithio'n agos â chi, neu fod wedi gweithio'n agos â chi'n ddiweddar, a bod â gwybodaeth bersonol o'ch gwaith fel eu bod mewn sefyllfa i roi sylwadau am eich cais a'i gefnogi. Nodwch os gwelwch yn dda y dylai Datganiadau Cefnogi adlewyrchu perthnasoedd proffesiynol; h.y. ni ddylent ddod gan aelodau o'r teulu neu fod ar sail cyfeillgarwch personol.

Disgwylir i'ch canolwr fod â phrofiad cyfredol neu ddiweddar o weithio mewn Addysg Uwch a bydd ganddo fel arfer un o'r pedwar categori o Gymrodoriaethau, er nad yw hyn yn hanfodol.

Mae angen i'r canolwyr i gyd fod yn gyfarwydd â'r PSF.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y Datganiadau Cefnogi y mae eich canolwr yn eu darparu oherwydd gallent gyfeirio at agweddau o'ch ymarfer a allai gryfhau eich cais; yn y sefyllfa hon, gallech chi ail edrych ar rannau o'ch cais a gofyn i'ch canolwyr wirio eu bod yn hapus i gadarnhau'r newidiadau yr ydych wedi eu gwneud cyn i chi ei gyflwyno. Pan fyddwch wedi derbyn eich Datganiadau Cefnogi, cadwch nhw fel eu bod yn barod i'w lanlwytho.

9.1 Canllaw i ganolwyr

Rhowch gopi o'r **Canllaw i Ddatganiad Cefnogi Cymrodoriaeth Gysylltiol a thempled y Datganiad Cefnogi** i'ch canolwr; bydd y ddwy ddogfen yma ar gael ar Moodle (modiwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen).

Yn ei Ddatganiad Cefnogi, bydd angen i'ch canolwr gadarnhau eich bod wedi disgrifio eich arferion yn gywir ac yn deg. Felly, mae angen **darparu fersiwn terfynol eich cais** i'ch canolwr er mwyn eu galluogi i ddarparu geirda effeithiol. Yn eu Datganiad Cefnogi, bydd pob canolwr yn cadarnhau eich bod, yn eu barn broffesiynol hwy, yn dangos gofynion Disgrifydd 1 ac y dylech dderbyn Gymrodoriaeth Gysylltiol.

Fel arfer, gofynnir i ganolwyr gadarnhau eu bod wedi ysgrifennu'r datganiad cefnogi eu hunain a bod y wybodaeth a ddarparant wedi ei ysgrifennu'n benodol ar gyfer eich cais chi. Gofynnir iddynt gadw eu Datganiad Cefnogi fel **ffeil pdf** a'i anfon atoch fel eich bod yn gallu lanlwytho'r rhain gyda'ch cais.

Mae'r Swyddfa Academaidd yn cadw'r hawl i gysylltu â'ch canolwyr i gael eglurhad felly gwnewch yn siŵr bod y ddau Ddatganiad Cefnogi'n cynnwys manylion cysylltu y gellir eu gwirio (e.e. enw, teitl swydd, cyfeiriad e-bost, sefydliad). Yn rhan o broses sicrhau ansawdd parhaus y Swyddfa Academaidd, mae'r Swyddfa Academaidd yn gwirio geirdaon yn rheolaidd i sicrhau bod unigolion yn ddilys drwy adolygiad testunol yn Turnitin. Yn ogystal â defnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad (Turnitin), cysylltir â rhai canolwyr i gadarnhau mai'r Datganiad Cefnogi a gyflwynir gan yr ymgeisydd yw'r un datganiad ag y maen nhw wedi ei baratoi a'i gwblhau. Os oes amheuaeth am onestrwydd proffesiynol y Datganiad Cefnogi, ni fydd y datganiad yn cael ei dderbyn a gallai hynny olygu bod y cais yn aflwyddiannus.

10. Cyflwyno eich cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol

Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich cais all-lein gan ddefnyddio templed y cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol ac mae gennych eich Datganiad Cefnogi, rydych yn barod i gyflwyno eich cais.

Cyflwynir eich cais yn gyntaf ar Moodle (modiwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen).

Gwneir gwiriad o gyfrifiad geiriau eich cais. Os ydych wedi mynd y tu hwnt i'r cyfrifiad geiriau, bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd atoch ac ni fydd yn derbyn ystyriaeth.

10.1 Y broses o gyflwyno'r cais:

1. Pan fydd gennych eich dogfennau cais i gyd, dilynwch y camau hyn i gyflwyno eich cais i gael ei adolygu:
 - 1.1 Cyflwynwch eich cais a'ch datganiad cefnogi ar y Ddolen Gyflwyno briodol ar Moodle (modiwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen)

11. Sut fydd eich cais yn cael ei adolygu?

Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ddau asesydd annibynnol (o'r enw 'panel Cydnabyddiaeth HEA') yn rhan o'r broses o adolygu cymheiriaid. Mae sampl o geisiadau o bob rownd o gyflwyniadau'n cael eu safoni gan Asesydd Allanol.

Dewisir adolygwyr am eu profiad o adolygiad allanol a'u dealltwriaeth o'r PSF, yn ogystal â chael eu dewis am eu gwybodaeth a'u profiad o ddysgu ac addysgu mewn addysg uwch. Mae cronfa aseswyr y Swyddfa Academaidd yn cynnwys arbenigwyr ac ymarferwyr addysg o amrywiaeth o ddisgyblaethau ar draws y Brifysgol.

Mae ein haseswyr yn gwneud cylch blynyddol o weithgareddau datblygiad proffesiynol a safoni rheolaidd i sicrhau bod eu hadolygiad o'ch cais wedi ei seilio ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ddiweddaraf o ofynion y PSF a'r gymrodoriaeth.

11.1 Sut mae'r aseswyr yn ffurfio eu barn?

Bydd yr aseswyr yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod eich arferion yn ateb gofynion Disgrifydd 1 ar draws eich RAP a byddent yn sicrhau bod y Datganiad Cefnogi'n darparu ardystiad priodol ar gyfer eich cais. Byddent yn asesu eich cais yn erbyn pob un o feini prawf Disgrifydd 1.

Bydd pob asesydd yn darllen eich cais ac yn defnyddio meini prawf Disgrifydd 1 i ffurfio barn annibynnol gychwynnol. Yna mae'r ddau asesydd yn ffurfio barn gonsensws ar y cyd. Os na fydd y ddau asesydd cyntaf yn gallu dod i benderfyniad cytun, yna defnyddir y Cynghorydd Allanol i safoni a chytuno ar ganlyniad.

Darperir [canllawiau](#) a gridiau adolygu ar gyfer ein haseswyr, gan esbonio sut y disgwylir iddyn nhw ffurfio barn broffesiynol am geisiadau am Gymrodoriaeth.

Cyn i unrhyw feirniadaeth gael ei chyfathrebu i'r ymgeisydd, mae'r Cynghorydd Allanol yn safoni sampl o geisiadau.

11.2 Canlyniadau posibl yr adolygiad

Dyfarniad


Os mai barn consensws y Panel yw bod eich cais yn ateb gofynion Disgrifydd 1, yna byddwch yn derbyn e-bost i'ch llongyfarch gan y Swyddfa Academaidd a fydd yn esbonio sut i lawrlwytho eich tystysgrif Cymrodoriaeth Gysylltiol o'ch cyfrif [AUYmlaen](#). Bydd gennych hefyd hawl i ddefnyddio'r AFHEA ôl-enwebol.

Cyfeirio

Os dyfernir nad yw eich cais wedi darparu digon o dystiolaeth i gyflawni Disgrifydd 1, yna byddwch yn derbyn adborth gan yr adolygwyr mewn **templed Canlyniad ac Adborth y Panel**. Bydd yr adborth hwn yn dangos pa rai o'r saith maen prawf y mae eich cais wedi eu cyflawni ac yn esbonio sut y bydd angen cryfhau eich cais i ddarparu dystiolaeth o'r meini prawf sy'n weddill o Ddisgrifydd 1.

Cynigir **un** cyfle i chi ailgyflwyno o fewn pedair wythnos, heb gost ychwanegol. Yn y sefyllfa hon, byddwch yn derbyn templed ar gyfer eich ailgyflwyniad a gofynnir i chi amlygu/defnyddio 'track changes' i ddangos unrhyw newidiadau a wnewch i'ch cais gwreiddiol. Unwaith y byddwch yn cyflwyno eich cais diwygiedig, bydd yr un adolygwyr yn gwneud beirniadaeth derfynol ac naill ai'n rhoi Cymrodoriaeth Gysylltiol neu'n dweud bod angen i chi gyflwyno cais newydd.

Nodwch os gwelwch yn dda, byddai angen i unrhyw apêl fod yn gysylltiedig â methiant i lynu at broses Y Drindod Dewi Sant ac nid â chanlyniad yr adolygiad.



11.3 Faint o amser fydd y broses adolygu'n ei gymryd?

Gellir gwneud cais am Gymrodoriaeth ar gyfer un o'r dyddiadau cyflwyno penodedig. Cewch eich hysbysu am ganlyniad eich cais o fewn 6 wythnos i ddyddiad cyflwyno panel.

11.4 Beth ddylwn i ei wneud os oes gen i gwestiynau eraill?

Os oes gennych ragor o gwestiynau neu os byddwch angen rhagor o gymorth, anfonwch e-bost i HEAapplications@uwtsd.ac.uk a bydd un o'n tîm yn gallu eich helpu.



Contact us

fellowship@advance-he.ac.uk

+44 (0)1904 717683 or +44 (0)1904 717664

<https://www.advance-he.ac.uk/fellowship>

   @AdvanceHE

Advance HE enables excellence in higher education, helping it shape its future. Within the UK and globally, Advance HE supports institutions in the areas of excellence in education, transformative leadership, equity and inclusion and effective governance. This is delivered through membership benefits (including accreditation of teaching, equality charters, research, knowledge and resources), programmes and events, Fellowships, awards, consultancy and enhancement services and student surveys.

©2020 Advance HE. All rights reserved.

No part of this document may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying, recording, or any storage and retrieval system without the prior written permission of the copyright owner. It is solely for use by Advance HE's accredited member institutions and direct fellowship applicants. As such, provided that due acknowledgment is given to Advance HE:

1. Advance HE's accredited member institutions are permitted to use and adapt this document solely for the use of their Advance HE accredited provision; and
2. Direct Fellowship applicants may download this document for the purpose of making and submitting an application for Fellowship to Advance HE

Advance HE is a company limited by guarantee registered in England and Wales no. 04931031. Registered as a charity in England and Wales no.1101607. Registered as a charity in Scotland no. SC043946. Advance HE words and logo should not be used without our permission. VAT registered no. GB 152 1219 50

To request copies of this report in large print or in a different format, please contact the Marketing and Communications Team at Advance HE:

+44 (0) 3300 416201 or publications@advance-he.ac.uk